DATGANIAD I'R WASG
Dydd Gwener 4 Mehefin 2010

CORON CEREDIGION I CATRIN

Catrin Haf Jones, Aelwyd Aeron, Aberaeron sy'n cipio coron Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru yn ei milltir sgwâr yng Ngheredigion heddiw.

Derbyniodd Catrin ei haddysg yn Ysgol Gynradd Llanarth ac Ysgol Gyfun Aberaeron cyn graddio o Adran Y Gyfraith, Prifysgol Durham y llynedd. Ar hyn o bryd, mae Catrin yn astudio gradd Meistr mewn Cymraeg ac Ysgrifennu Creadigol ym Mhrifysgol Bangor.

Pan yn iau, roedd Catrin yn aelod brwd o Aelwyd yr Urdd Pandy, Llanarth a hi fu'n gyfrifol am sefydlu Aelwyd yr Urdd Durham yn ystod ei chyfnod yn y Brifysgol. Heddiw, mae Catrin yn aelod o Aelwyd Aeron yn ogystal ag Aelwyd John Morris Jones, Bangor ac mae'n dymuno pob llwyddiant iddynt yng nghystadlaethau'r Aelwydydd nos yfory!

Mae gan Catrin ddiddordeb mawr mewn materion cyfoes a gwleidyddiaeth yn ogystal ag amaeth a'r celfyddydau. Mae hefyd yn mwynhau darllen, ysgrifennu a theithio.

Mae ennill y Goron yn ei milltir sgwâr yn anrhydedd mawr i Catrin fel yr eglura:

''Mae ennill y Goron mewn Eisteddfod leol yn deimlad arbennig iawn. Hoffwn ddiolch i'm hathrawon Cymraeg yn Ysgol Gyfun Aberaeron yn ogystal ag Adran Y Gymraeg, Prifysgol Bangor am eu cefnogaeth. Ond yn bennaf oll, hoffwn ddiolch i'm teulu am eu hysbrydoliaeth ddiddiwedd.''

Gwennan Evans, Aelwyd CF1, Caerdydd, sy'n dod yn ail heddiw a Gwawr Eleri Jones, Aelod Unigol, Cylch Llambed sy'n cael y drydedd wobr.

Rhoddir replica'r goron eleni gan Gwenan a Deian Creunant er cof am eu rhieni Alun a Megan Creunant Davies. Noddwyd y seremoni heddiw gan HSBC.

Diwedd

Manylion pellach: Siân Eleri Davies 07976 330360

PRESS RELEASE
Friday 4 June 2010

CEREDIGION CROWN FOR CATRIN

Catrin Haf Jones, Aelwyd Aeron, Aberaeron, wins the crown at Urdd Gobaith Cymru's National Eisteddfod in Ceredigion today.

Catrin attended Ysgol Gynradd Llanarth and Ysgol Gyfun Aberaeron before gaining a degree in Law from Durham University last year. She's currently studying a Masters degree in Welsh and Creative Writing at Bangor University.

The Urdd has always played a central role in Catrin's life, having been a loyal member of Aelwyd y Pandy, Llanarth when she was younger. Catrin was responsible for establishing Aelwyd Durham whilst at University. As well as being a member of Aelwyd Aeron, Catrin also belongs to Aelwyd John Morris Jones, Bangor and wishes them both well in tomorrow's competitions!

In her spare time, Catrin enjoys politics and current affairs, agriculture and the arts. She also spends much of her time reading, writing and travelling.

Catrin explains that winning the crown on home turf is a great honour:

''Winning the crown so close to home is a wonderful feeling. I would especially like to thank my Welsh teachers at Ysgol Gyfun Aberaeron and the Welsh department at Bangor University for their support. Most of all, I would like to thank my family for their endless inspiration.''

Gwennan Evans, Aelwyd CF1, Cardiff came second, and Gwawr Eleri Jones, from Lampeter came third.

This year, the replica of the crown was given by Gwenan and Deian Creunant in memory of their parents Alun and Megan Creunant Davies. Today's ceremony was sponsored by HSBC.

Ends

Further information: Siân Eleri Davies 07976 330360